Daeth hi'n bryd trosi'r ymwybyddiaeth hwn yn barodrwydd i wneud ymrwymadau go iawn i fynd i'r afael â'r broblem ar fyrder.

Mae'r adroddiad yn nodi camau y gallwn eu cymryd i ddechrau gwneud gwahaniaeth, ac rwy'n mawr obeithio na fydd y plant sy'n wynebu cael eu hecsbloetio'n rhywiol yng Nghymru yn gorfod parhau o'r golwg ac o'r ffordd.



Raymond Ciborowski

Cyfarwyddwr Barnardo's Cymru

Cyflwyniad

Ychydig a wyddys am ehangder a natur ecsbloetio plant yn rhywiol yng Nghymru a hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu unrhyw astudiaeth yn y maes hwn. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau astudiaeth gwmpasu a wnaed gan Barnardo's Cymru ar ran Grŵp Ymgynghorol Cymru ar Ecsbloetio Plant yn Rhywiol, a hwn yw'r unig ymarfer cwmpasu o'i fath. Sefydlwyd y grŵp hwn ym mis Ionawr 2004, dan gadeiryddiaeth Comisiynydd Plant Cymru, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau statudol a gwirfoddol, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad a'r heddlu.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canfyddiadau'r astudiaeth gwmpasu a gyflawnwyd dros gyfnod o chwe mis rhwng Chwefror a Gorffennaf 2005, ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth o fodlau o ofal ar gyfer amddiffyn plant a phobl ifanc rhag ecsbloetio rhywiol a glustnodwyd mewn ymchwil gyfredol.

Methodoleg

Cysylltwyd ag ymarferwyr ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, a gofynnwyd am set safonol o wybodaeth ganddynt. Yn ogystal â chydlynnydd amddiffyn plant y gwasanaethau cymdeithasol ym mhob awdurdod, cysylltwyd hefyd ag amrywiol ymarferwyr a allai fod yn dod i gysylltiad â phobl ifanc sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol ym mhob ardal. Ymatebodd cyfanswm o 32 ymarferydd i geisiadau am wybodaeth. Derbyniwyd gwybodaeth o 21 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

At ei gilydd, cynhaliwyd 16 o gyfweiliadau lled-strwythuredig gydag ymarferwyr a rheolwyr o 12 awdurdod lleol yng Nghymru. Cyfwelwyd y cydlynnydd amddiffyn plant mewn saith awdurdod lleol ac fe gynhaliwyd naw cyfweiliad pellach mewn asiantaethau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys: ymarferwyr gwaith cymdeithasol a oedd yn gweithio i awdurdodau lleol (tri); cynrychiolwyr o asiantaethau sector gwirfoddol (pedwar) a chynrychiolwyr o wasanaethau iechyd a oedd yn gweithio gyda phlant (dau). Yn ogystal â'r cyfweiliad, derbyniwyd 16 o ymatebion ysgrifenedig gan ymarferwyr o 11 awdurdod lleol. Cafwyd ymatebion ysgrifenedig gan: gydlynwyr amddiffyn plant (chwech); ymarferwyr iechyd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc (naw) a rheolwr gwasanaeth ôl-ofal awdurdod lleol (un). Rhoddwyd sicrwydd i bawb a gyfrannodd at yr astudiaeth y byddent yn ddiennw, ac ni enwyd unigolion nac awdurdodau lleol unigol.

Diffinio ecsbloetio rhywiol

Gan fod ecsbloetio plant yn rhywiol yn ffurf gudd o gamdriniaeth, gall fod yn anodd ei ganfod ac, o'r herwydd, yn anodd ei ddiffinio. Ar ben hynny, mae ymchwilwyr ac ymarferwyr sy'n gweithio yn y maes yn anghytuno ynglŷn â nodweddion ecsbloetio rhywiol, gan amrywio o berthynas sy'n ecsbloetio unigolyn yn rhywiol trwy gynnig sigarennau, alcohol neu gredyd ffôn symudol yn gyfnewid am ryw, i 'buteindra' mwy ffurfiol. Yn yr un modd, wrth bennu ffactorau achosol, mae rhai yn gweld y plant a'r bobl ifanc fel dioddefwyr sy'n gwbl amddifad o unrhyw rym, ac eraill yn eu gweld fel unigolion sydd mor fregus fel nad yw'r gallu ganddynt i roi cydsyniad gwybodus:

“Mae sawl ffurf wahanol i gam-drin plant a phobl ifanc trwy buteindra, yn amrywio o gynnwys pobl ifanc mewn perthynas sy'n eu hecsbloetio'n rhywiol a rhoi arian, cyffuriau neu lety iddynt yn gyfnewid am ryw gydag un neu ragor o ddynion, i gael eu hecsbloetio mewn puteindra mwy 'ffurfiol'. Ym mhob achos, mae'r rhai sy'n ecsbloetio'r bobl ifanc yn meddu ar rym drostynt oherwydd eu hoedran, eu rhyw, eu cryfder corfforol neu eu hadnoddau economaidd neu adnoddau eraill, megis llwybr at gyffuriau. Er bod rhyw elfen o orfodaeth neu fygwth yn gyffredin, nodwedd fwyaf arwyddocaol perthynas sy'n ecsbloetio yw'r ffaith mai bregusrwydd cymdeithasol, emosiynol ac economaidd y person ifanc a'u gyrodd i sefyllfa o'r fath.” (Hibbert, 2005)

Graddfa a natur ecsbloetio plant yn rhywiol yng Nghymru

Ehangder yr ecsbloetio

Gofynnwyd i ymarferwyr a oeddent yn ymwybodol o unrhyw blant neu bobl ifanc yr oedd eu gwasanaeth yn gyfarwydd â hwy y gallent ddweud eu bod yn cael eu hecsbloetio'n rhywiol. Ceisiwyd mwy o fanylion am y bobl ifanc a nodwyd, er mwyn sicrhau bod yr achosion y tynnwyd sylw atynt yn ymwneud ag ecsbloetio plant yn rhywiol, yn hytrach na ffurfiau eraill o gam-drin plant yn rhywiol. Roedd hi'n amlwg bod angen esbonio'r gwahaniaeth rhwng ecsbloetio plant yn rhywiol a ffurfiau eraill o gamdriniaeth rywiol i nifer o ymatebwyr. Gan fod ecsbloetio rhywiol yn fath cudd o gamdriniaeth, ac yn rhywbeth y ceir arwyddion ohono, yn hytrach na gwybodaeth sicr, holwyd ymarferwyr ynglŷn â'r bobl ifanc hynny lle ceid pryder o ecsbloetio posibl.

- Pennwyd bod plant a phobl ifanc yn cael eu hecsbloetio yn 20 o'r 21 awdurdod lleol a broffiliwyd.
- At ei gilydd, yn yr holl awdurdodau lleol, pennwyd 184 o achosion gwahanol o blant a phobl ifanc a oedd yn cael eu hecsbloetio'n rhywiol, neu lle ceid pryderon eu bod yn cael eu hecsbloetio'n rhywiol.

Cymerwyd gofal i hepgor yr achosion hynny a allai fod wedi'u cyfrif ddwywaith, trwy groesgyfeirio achosion a adroddwyd ym mhob awdurdod lleol a ymddangosai'n debyg, a'u hepgor. Pan nad oedd modd cyfatebu achosion oherwydd prinder data, cymerwyd agwedd ofalus ac fe hepgorwyd yr achosion hynny'n fwriadol. Mae hyn yn golygu bod y ffigurau yn rhai ceidwadol.

- Mewn pump o'r awdurdodau lleol, roedd ymatebwyr yn teimlo nad oeddent yn gallu rhoi union nifer y plant yr effeithir arnynt, gan ddewis defnyddio disgrifiadau megis 'llawer', 'nifer', 'nifer bychan'. Mae hyn yn golygu, er gwaethaf pennu bod ecsbloetio rhywiol yn digwydd yn yr awdurdodau lleol hyn, na chynhwyswyd unrhyw ffigurau yn y cyfanswm.

- Dywedodd 17 o ymatebwyr yn benodol na chedwir unrhyw ddata ynglŷn â'r mater penodol hwn yn eu hasiantaethau. Mae diffyg monitro ffurfiol yn golygu bod ffigurau, mewn sawl achos, ond yn cyfeirio at bobl ifanc yr oedd ymarferwyr yn gwybod amdanynt yn bersonol, yn hytrach na rhai yr oedd yr asiantaeth yn ei chyfanrwydd yn gyfarwydd â nhw. Er enghraifft, dywedodd un cydlynnydd amddiffyn plant, *'mae'r niferoedd yn cynyddu; dim ond canran fechan a ddaw i'm sylw'*.

Mae hefyd yn debygol bod union nifer y bobl ifanc sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol yn uwch, gan fod nifer y bobl ifanc a bennwyd yn adlewyrchu lefel yr ymwybyddiaeth a'r canfyddiadau gweithredol o ecsbloetio rhywiol, a oedd yn isel mewn sawl achos, mater a drafodir yn fanylach isod. Mae hyn yn golygu nad oes modd pennu union nifer y bobl ifanc sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol.

Mae nifer yr achosion a bennwyd (184) felly'n cynrychioli'r isafswm o bobl ifanc sydd mewn perygl, ac yn danamcangyfrif o raddfa ecsbloetio rhywiol yng Nghymru.

Natur yr ecsbloetio a bennwyd

Adroddwyd bod ystod helaeth o ecsbloetio yn digwydd ledled awdurdodau lleol Cymru. Mae hyn yn cynnwys: pobl ifanc sydd mewn perthynas lle maent yn cael eu hecsbloetio'n rhywiol gan ddynion hŷn; plant a phobl ifanc sy'n cael eu hudo i weithgarwch rhywiol gyda ffrindiau dyn sy'n ecsbloetio; pobl ifanc sy'n cael eu codi oddi ar y stryd mewn ceir a phlant a phobl ifanc sy'n cael eu targedu i berfformio gweithredoedd rhywiol yn gyfnewid am arian, sigarennau, cyffuriau, rhoddion, llety, prydau gan weithwyr mewn caffi neu fwytai neu lifft adre mewn tacsis. Gwelwyd bod plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn cartrefi preswyl, yn agored i niwed.

- Cyfyngedig oedd yr adroddiadau o fechgyn a dynion ifanc a oedd yn cael eu hecsbloetio. Dim ond chwech ymatebydd oedd yn gallu dyrannu eu ffigurau yn ôl rhyw. Roedd y rhai a oedd â'r data hwnnw'n pennu naw achos o ecsbloetio dynion ifanc yn rhywiol, ac roedd pob un ohonynt dros 16 oed.
- Tameidiog hefyd oedd yr adroddiadau am bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed. Dywedodd wyth ymatebydd bod eu ffigurau'n cynnwys y grŵp oedran hwn gan gynnwys dim ond dau ymateb gan gydlynwyr amddiffyn plant.

Mae'r anghysonderau yn y cyfraniadau hyn yn tynnu sylw at ddiffygion monitro ffurfiol. Er enghraifft, yn ardal tri awdurdod lleol, adroddodd swyddogion amddiffyn plant nad oedd un person ifanc rhwng 16 ac 18 oed mewn risg yn eu hardal hwy, tra bo mudiadau sector gwirfoddol a oedd yn gweithio yn yr un ardal ddaearyddol yn nodi eu bod yn gweithio gyda nifer o blant a gyfeiriwyd ganddynt at y gwasanaethau cymdeithasol am fod ganddynt bryderon ynghylch ecsbloetio rhywiol.

Mynegodd un ymarferydd bryderon am ecsbloetio'n rhywiol a gwerthu plant a phobl ifanc o'r tu allan i'r DU a oedd yn ceisio lloches, er nad oedd unrhyw ffigurau na gwybodaeth bellach ar gael.

Dywedodd pob ymatebydd a roddodd ddata am ethnigrwydd bod hyn yn nodwedd o bobl wyn y DU yn bennaf.

Canfod ecsbloetio plant yn rhywiol

Mae Arweiniad Ategol yr Adran Iechyd/Llywodraeth Cynulliad Cymru: Diogelu Plant sy'n cael eu Cam-drin trwy Buteindra (2000) yn nodi'r disgwyliad clir bod gan wasanaethau rôl allweddol i'w chwarae wrth fynd ati'n weithredol i ganfod ecsbloetio rhywiol:

'Dylai'r PAAP drefnu i fynd ati'n weithredol i ganfod i ba raddau y mae plant yn ymwneud â phuteindra' (5.5)

'Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol allu adnabod sefyllfaoedd lle gallai plant fod yn ymwneud â phuteindra, neu mewn perygl o hynny' (2.3)

Canfuwyd nifer o ffactorau risg trwy ymchwil flaenorol i ecsbloetio rhywiol. Cydnabyddir y ffactorau risg hyn yn awr fel dangosyddion o ecsbloetio rhywiol sydd wedi hen ennill eu plwy.

- tadau neu lystadau treisgar
 - camdriniaeth gorfforol neu rywiol yn y teulu
 - mamau sy'n dioddef trais yn y cartref a/neu sy'n gaeth i alcohol/cyffuriau
 - wedi ymddieithrio o addysg erbyn eu harddegau cynnar
 - wedi eu hynysu oddi wrth eu teuluoedd neu gymunedau
 - crefu sylw
 - hanes o 'fynd ar goll'
 - yn awyddus i 'ddianc' rhag plentyndod a chael eu hystyried yn oedolion
 - caeth i gyffuriau/alcohol
 - cael eu targedu a'u hecsbloetio'n rhywiol gan pimp
- (Scott, 2001)

- digartrefedd
 - rhedeg i ffwrdd
 - profiad o fywyd ar y stryd
 - awydd taer am arian, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio cyffuriau
 - yn 'derbyn gofal' gan awdurdod lleol
- (Cusick, 2002)

- gwrthdaro yn/gyda'r ysgol
 - mynd i geir dynion
 - defnyddio ffôn yn aml i alw nifer o bobl wahanol
 - rhedeg i ffwrdd/'mynd ar goll'
 - dioddef ymosodiad rhywiol/trais
 - dioddefwr/wraig trais corfforol
- (Pearce, 2002)

Gofynnwyd i ymarferwyr sut oedd eu hasiantaethau yn canfod plant a phobl ifanc a oedd yn cael eu hecsbloetio'n rhywiol neu a allai fod mewn perygl o hynny.

- Roedd dau awdurdod lleol wedi comisiynu ymarferion cwmpasu er mwyn cael gwybodaeth am ecsbloetio rhywiol yn eu hardal.
- Adroddodd 13 o gydlynwyr amddiffyn plant awdurdod lleol bod ecsbloetio rhywiol yn cael ei ganfod lle codwyd pryderon gan weithwyr cymdeithasol, staff preswyl neu ofalwyr neu trwy atgyfeiriadau gan asiantaethau eraill megis ieuchyd, addysg a heddlu. Dywedodd ymarferwyr o wasanaethau ôl-ofal mai'r asesiad o angen oedd y ffordd orau o ganfod y plant a'r bobl ifanc hyn, ac mai'r cynllun llwybr oedd y ffordd i fynd i'r afael ag ef.
- Dywedodd 11 o ymarferwyr bod prinder 'tystiolaeth gadarn' yn rhwystr o ran canfod ecsbloetio rhywiol. Roedd hyn yn golygu nad oedd plant yn cael eu clustnodi'n rhai a oedd mewn perygl gan y credid mai gwybodaeth ar lafar gwlad ydoedd ac, o'r herwydd, nad oedd yn ddilys. O'r herwydd, mae perygl bod y rhan fwyaf o achosion a ganfyddir yn dod i'r amlwg pan fydd y risg eisoes wedi cyrraedd lefelau critigol.
- Nid oedd ffactorau risg ar gyfer ecsbloetio rhywiol yn cael sylw penodol fel rhan o'r broses asesu yn 19 o'r 21 awdurdod lleol lle darparwyd gwybodaeth. Dim ond un ymatebydd a ddisgrifiodd gam penodol o gasglu gwybodaeth mewn perthynas ag ecsbloetio rhywiol yn ystod y broses asesu.

Dywedodd chwe ymatebydd eu bod yn dibynnu ar blant a phobl ifanc i ddweud wrthynt am eu sefyllfa, gyda 13 ymatebydd yn tynnu sylw at y ffaith mai anaml iawn y mae plant yn datgelu'r math hwn o gam-drin ac nad ydynt yn sylweddoli eu bod yn cael eu hecsbloetio.

Mae canfod ecsbloetio rhywiol yn dibynnu ar ymwybyddiaeth ymarferwyr unigol sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc. Fodd bynnag, roedd diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol o faterion yn ymwneud ag ecsbloetio plant yn rhywiol yn yr holl asiantaethau:

- Dywedodd 28 o ymatebwyr eu bod yn ei chael hi'n anodd canfod plant sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymchwil sy'n dangos bod natur gudd ecsbloetio plant yn rhywiol yn ei gwneud hi'n hynod o anodd canfod achosion, ac mae'r asiantaethau amddiffyn yn aml yn methu yn hyn o beth (Pearce, 2002).
- Tynnodd saith ymarferydd sylw at yr anawsterau o godi'r mater â phlant a phobl ifanc.
- Dywedodd pump ar hugain o ymatebwyr bod angen hyfforddiant, gyda thri awdurdod lleol, mae'n ymddangos, wedi cael hyfforddiant arbenigol ym maes ecsbloetio rhywiol neu'n bwriadu cael hyfforddiant o'r fath. Roedd un awdurdod lleol wedi bwriadu trefnu hyfforddiant ar gyfer eu staff, ond ei fod wedi ei ganslo ar ôl penderfynu nad oedd problem benodol yn yr ardal.

Cyfeiriodd saith ymarferydd hefyd at anawsterau gyda phlant yn cael eu credu a'r agwedd gosbol a gymerid yn aml wrth ddelio ag ecsbloetio rhywiol:

Ymateb i ecsbloetio rhywiol

Mae arweiniad yr Adran Iechyd/Llywodraeth y Cynulliad yn pwysleisio bod angen agwedd gyson gydlynus tuag at weithio i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cael eu hecsbloetio'n rhywiol.

'Mae'r Llywodraeth yn cydnabod nad proses syml mo greu strategaeth lwyddiannus i gael plentyn i adael puteindra. Mae'n gofyn am agwedd ofalus, ofalgar a chydnerth rhwng asiantaethau, a honno, o bosib, yn un y byddai'n rhaid ei chynnal am gyfnod maith' (2.4)

Cyfeiriodd ymarferwyr at anhawster i gael cefnogaeth gan asiantaethau eraill i fynd i'r afael ag anghenion y plant yr effeithiwyd arnynt.

*'Mae gweithwyr cymdeithasol yn dweud fod hon yn broblem aruthrol ymhlith merched ifanc, ond 'does neb yn gwybod beth i'w wneud amdano'
– Ymarferydd*

- Roedd ymarferwyr yn y sector gwirfoddol a gweithwyr proffesiynol iechyd yn arbennig o rwystredig yn wyneb yr ymateb gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu pan oeddent yn lleisio pryderon am blentyn a oedd mewn perygl o gael ei ecsbloetio'n rhywiol neu a oedd yn cael ei ecsbloetio felly. At ei gilydd, dywedodd 14 nad oedd ei hatgyfeiriadau'n cael eu cymryd o ddifrif ac nad ymatebwyd trwy unrhyw weithred.
- At ei gilydd, dywedodd 19 ymatebydd eu bod wedi cael trafferth cael ymateb priodol gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r heddlu pan fynegasant bryderon am blentyn.

At ei gilydd, roedd y lefel ymwybyddiaeth o ecsbloetio plant yn rhywiol ar ei orau ymhlith ymarferwyr gofal iechyd sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc. Roedd yr ymarferwyr hyn hefyd yn fwy effro i berthnasedd dangosyddion risg.

Mae arweiniad yr Adran Iechyd/Llywodraeth y Cynulliad yn nodi fel a ganlyn:

'Mae plant sy'n derbyn gofal, sy'n rhedeg i ffwrdd, yn arbennig o agored i'r risg o ecsbloetio rhywiol...dylai awdurdodau lleol fod â phrotocolau ar waith gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill ynglŷn â'r camau i'w cymryd pryd bynnag y bydd plentyn yn mynd ar goll a phan fydd ef neu hi yn dychwelyd' (6.14)

- Dywedodd 11 o ymatebwyr bod yr ymateb i blant sydd ar goll yn annigonol, gydag ymarferwyr yn cydnabod bod yr ymateb presennol, pan fydd swyddogion yr heddlu yn holi plant am wybodaeth ar ôl iddynt dychwelyd yn amhriodol ac yn aml yn wrthgynhyrchiol. Cydnabuwyd nad yw swyddogion 'ar ddyletswydd' efallai wedi cael hyfforddiant nac yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â hyn yn effeithiol. Yn ogystal â bod yn aneffeithiol, mae'r ymateb hwn yn rhoi pwysau aruthrol ar adnoddau'r heddlu. Efallai bod cydweithwyr sydd â phrofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc yn fwy addas i ymgymryd â'r dasg hon.

'Roeddwn mewn cyfarfod strategol i drafod merch 13 oed ac fe ddywedodd y rheolwr gwasanaeth a oedd yn cadeirio'r cyfarfod ei bod yn berygl i ddynion' – Ymarferydd

Amddiffyn plant a phobl ifanc

Defnyddio protocolau

Mae arweiniad yr Adran Iechyd/Llywodraeth y Cynulliad yn nodi fel a ganlyn:

'Dylai Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant ddatblygu protocol lleol ar blant sy'n cael eu cam-drin trwy buteindra a monitro ac adolygu sut mae'r protocol yn cael ei weithredu' (5.5)

At ei gilydd:

- Nodwyd bod gan wyth o'r awdurdodau lleol brotocolau a ddatblygwyd dan yr arweiniad.
- Roedd 13 o'r ymatebwyr yn ymwybodol o fodolaeth protocolau ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd yn cael eu hecsbloetio'n rhywiol yn eu hardal, ond roedd pump o'r rhain yn nodi nad oedd y protocolau'n cael eu defnyddio fel mater o drefn.
- Dywedodd 12 cydlynnydd amddiffyn plant bod gweithdrefnau amddiffyn plant yn cael eu defnyddio, neu y dylid eu defnyddio, i ymateb i ganfod achos o blentyn yn cael ei ecsbloetio'n rhywiol, ac roedd pump o'r rhain yn dweud eu bod yn credu nad yw gweithdrefnau amddiffyn plant yn cael eu defnyddio'n effeithiol, gydag achosion yn cael eu trin trwy ddefnyddio dulliau eraill.

Tynnwyd sylw at anghysonderau yn yr ymateb i ecsbloetio rhywiol a'r defnydd o brotocolau ledled Cymru. Er enghraifft, mewn un awdurdod lleol, defnyddir gweithdrefnau amddiffyn plant gyda phlentyn y mae gwasanaethau cymdeithasol eisoes yn gyfarwydd ag ef/hi a lle ceir tystiolaeth gadarn bod ecsbloetio rhywiol yn digwydd. Mewn awdurdod cyfagos, adroddwyd mai prin iawn yw'r defnydd ohonynt.

'Mae'n digwydd ym mhobman, rwy'n clywed pobl yn siarad amdano, ond nid yw'n cyrraedd cynhadledd' – Cydlynnydd Amddiffyn Plant

Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau Arweiniad Adolygu Llywodraeth (Swann a Balding, 2002) a ganfu ddiffyg cysonder mewn prosesau ac ymatebion i achosion unigol, a dim consensws ynglŷn â phryd i sbarduno ymchwiliad amddiffyn plant adran 47 yn dilyn asesiad cychwynnol.

Canfuwyd anghysonderau pellach rhwng ffigurau a ddarparwyd gan yr ymarferwyr hynny a oedd yn gweithio gyda phlant yn y system plant sy'n derbyn gofal a'r rhai a oedd yn gweithio mewn asiantaethau a oedd yn canolbwyntio'n fwy penodol ar amddiffyn plant. Esboniad posibl dros hyn yw'r ffaith y gellid delio â phlant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol trwy weithdrefnau plant sy'n derbyn gofal, yn hytrach na systemau amddiffyn plant aml-asiantaeth, fel sy'n ofynnol yn arweiniad yr Adran Iechyd/Llywodraeth y Cynulliad.

- Dim ond pump ymatebydd a ddywedodd bod plant a oedd yn mynd ar goll neu'n aros allan dros nos yn arwydd o risg o ecsbloetio rhywiol. Mae hyn yn destun pryder sylweddol, gan fod ymchwil ac ymarfer wedi nodi 'mynd ar goll' yn ffactor risg sydd wedi ei hen sefydlu (Harper a Scott, 2005; Pearce, 2002).

Maes pryder pellach y tynnwyd sylw ato yw'r ddarpariaeth gwasanaeth iechyd rhywiol ar gyfer plant sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol. Mae ymarferwyr yn cydnabod bod plant o'r fath gyda'r rhai mwyaf agored i niwed yng Nghymru, o ran iechyd rhywiol gwael. Nid oes gwasanaethau o fewn cyrraedd rhwydd i blant yr effeithir arnynt a hyd yn oed pan fyddant ar gael, nid ydynt yn gallu diwallu eu hanghenion. Cyfeiriodd ymarferydd at achos lle'r oeddent yn gweithio gyda merch ifanc 14 oed a ddaeth i gael triniaeth am chlamydia.

'Gwrthododd y clinig ei thrin os nad oedd hi'n datgelu nifer ac enwau ei 'phartneriaid rhywiol' ... ac nid oedd unrhyw fwriad ganddi o wneud hynny!'
– Ymarferydd

- At ei gilydd, mynegodd naw ymatebydd eu pryder ynglŷn â pha mor anodd yw hi i gysylltu â phlant sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol a sut y maent yn teimlo nad oes ganddynt hwy, yn bersonol na'u hasiantaethau, yr adnoddau i ymgymryd â'r gwaith, yn arbennig heb gefnogaeth gan asiantaethau eraill.

Maent yn disgrifio sut y mae hyn yn aml yn arwain at rwystredigaeth a thueddiad i wneud dim byd, gan 'nad oes neb yn gwybod beth i'w wneud'. Disgrifiodd un ymarferydd gyfres o gyfarfodydd a oedd yn ymwneud â phlentyn 13 oed yr oedd arwyddion amlwg o ecsbloetio rhywiol yn bodoli yn ei chylch. Cafwyd trafodaethau niferus, ond ni wnaethpwyd dim, 'rhedodd y cyfan allan o stêm yn y diwedd... wn i ddim beth ddaeth ohoni'.

Gweithio Rhyngasiantaethol

Mae'r arweiniad yn tynnu sylw at yr angen i weithio'n rhyngasiantaethol i ymateb i anghenion plentyn sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol.

'Yn y bôn, disgwylir i bob asiantaeth statudol a gweithiwr proffesiynol weithio gyda'i gilydd i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn' (3.2)

Nid oes gan un o'r awdurdodau lleol a broffiliwyd agwedd gyson a systematig tuag at weithio'n amlasiantaethol ym maes ecsbloetio plant yn rhywiol. Hyd yn oed yn yr ardaloedd hynny lle ceir gweithgorau, nid oes unrhyw gydlynad sefydledig rhwng asiantaethau i greu rhwydwaith amddiffynnol wrth gytuno ar ymateb i bryderon ynglŷn â phlentyn sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol.

Er enghraifft, cyfeiriodd cydlynnydd amddiffyn plant at wasanaeth sector gwirfoddol a oedd yn gweithio yn ardal ddaearyddol yr awdurdod fel asiantaeth a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc a oedd yn cael eu hecsbloetio'n rhywiol. Fodd bynnag, nid oedd yr asiantaeth hon yn ymwybodol o fodolaeth y protocolau, ac nid oedd hi'n gwybod dim am y grŵp amlasiantaethol sy'n cwrdd yn yr ardal honno i drafod ecsbloetio plant yn rhywiol nac unrhyw gynrychiolaeth ar y

grŵp hwnnw. Roedd yr awdurdod lleol yn un o'r rhai mwyaf rhagweithiol a nodwyd trwy'r ymarfer cwmpasu.

Ceir tystiolaeth bellach o'r diffyg strategaeth a chydlynid yn yr ymateb i'r pwnc hwn gan y ffigurau gwahanol ynglŷn ag ehangder y mater a ddarparwyd gan asiantaethau sy'n gweithio o fewn yr un ardal awdurdod lleol, fel y trafodwyd uchod.

Negeseuon gan ymarferwyr

Canfod a chamu i mewn yn gynnar

Dywedodd pedwar o ymarferwyr sector gwirfoddol ei bod hi'n rhy hwyr pan fydd plentyn wedi cyrraedd ei 16 oed i wneud unrhyw waith gyda nhw ym maes ecsbloetio rhywiol. Roeddent yn disgrifio'r elfennau niferus a wynebai pobl ifanc wrth adael gofal neu brofi digartrefedd, a dim ond un ohonynt oedd ecsbloetio rhywiol. Dadleuent fod angen canfod pryderon a chamu i mewn yn llawer cynt.

'Mae gwasanaethau cymdeithasol wedi ei hadnabod ers pan oedd hi'n fach; mae hyn wedi bod yn digwydd iddi ers pan oedd hi'n 12' – Ymarferydd

Adnoddau arbenigol

Mae arweiniad yr Adran Iechyd/Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod budd adnodd arbenigol.

'Dylai'r PAAP drefnu i ddarparu adnodd lleol a ffynhonnell arbenigedd ar gyfer pobl sydd â phryderon bod plentyn mewn perygl o gael ei dynnu i mewn i buteindra neu ei fod yn cael ei gam-drin trwy buteindra' (5.5)

Nid oedd un o'r ymatebwyr yn gallu enwi gwasanaeth arbenigol ym maes ecsbloetio plant yn rhywiol yng Nghymru, er y cyfeiriodd 12 at wasanaethau yr oeddent yn credu a oedd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a oedd yn cael eu hecsbloetio'n rhywiol, er nad oeddent. Mae hyn yn brawf pellach o'r diffyg dealltwriaeth ynglŷn â natur ecsbloetio plant yn rhywiol. Mae Harper a Scott (2005) a Pearce (2002), y naill a'r llall, yn nodi bod gwasanaethau arbenigol yn allweddol ar gyfer gwaith llwyddiannus parhaus gyda'r grŵp cleient hwn.

Hyfforddiant, cyngor ac ymgynghori

Dywedodd cyfanswm o 25 ymatebydd bod angen cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ar eu hasiantaethau hwy eu hunain ac ar ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn asiantaethau eraill. Dywedodd 21 ymatebydd bod ymgynghoriaeth achos yn arbennig o ddefnyddiol wrth ganfod plant sydd mewn perygl ac wrth roi ymateb priodol.

Nododd 14 ymatebydd bod angen gwasanaethau penodol ar gyfer delio ag ecsbloetio plant yn rhywiol, gyda saith yn awgrymu cynnwys darpariaeth y tu allan i oriau mewn unrhyw wasanaeth arbenigol. Mynegodd un ymarferydd y rhesymeg dros hyn yn dra effeithiol:

*'mae'r dynion [y drwgweithredwyr] yn gwybod nad oes ganddyn nhw
[y plant] neb ar gael ar ôl pump o'r gloch yr hwyr, maen nhw'n gyfan gwbl
ar eu pen eu hun' – Ymarferydd*

Ar goll

Dywedodd pum ymarferydd bod angen gwasanaeth i ymateb yn briodol i blant a oedd yn mynd ar goll, boed hynny dros nos neu am gyfnod hwy. Credent y byddai hyn yn ffordd o gymryd camau ataliol pan fyddai plant mewn perygl o gael eu hecsbloetio'n rhywiol.

Swyddogaeth flaenllaw

Bu'n ganfyddiad allweddol ers peth amser mai un o nodweddion datblygu gwaith ecsbloetio rhywiol yw bod pobl yn ymgymryd â thasgau ar ben eu swyddogaeth arferol, sy'n golygu bod ecsbloetio rhywiol yn cael ei ynysu o systemau'r brif ffrwd a gwaith a wneir bob dydd. Cyfeiriodd saith ymatebydd at hyn. Wrth siarad am rywun a bwysodd i gynnwys ecsbloetio rhywiol ar yr agenda mewn un awdurdod lleol, dywedodd ymatebydd:

*'roedd grŵp a arferai gyfarfod i drafod y mater hwn... pan adawodd hi, daeth
y cyfan i ben a dydw i ddim yn gwybod a yw'r grŵp yn dal i gyfarfod'.
– Ymarferydd*

Trafodaeth

Aeth pum mlynedd heibio ers cyhoeddi Arweiniad Ategol yr Adran Iechyd/Llywodraeth y Cynulliad: Diogelu Plant sy'n cael eu Cam-drin trwy Buteindra (2000). Awgryma'r astudiaeth gwmpasu mai annigonol fu datblygiad systemau i ddiogelu plant a phobl ifanc sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol yng Nghymru cyn belled. Mae'r astudiaeth wedi nodi anghysonderau yn yr ymateb i ecsbloetio rhywiol a'r defnydd o brotocolau rhwng asiantaethau o fewn awdurdodau lleol a rhwng awdurdodau lleol ledled Cymru. Cyhoeddwyd arweiniad drafft ar ddiogelu plant yng Nghymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Mehefin 2005. Mae'r arweiniad drafft hwn yn cyfeirio'n ôl at yr arweiniad a gyhoeddwyd ar y cyd gan yr Adran Iechyd yn 2000, ac mae'n atgyfnerthu'r angen am brotocolau, gan ddatgan:

'Dylai canfod plentyn sy'n rhan o ecsbloetio rhywiol, neu sydd mewn perygl o gael ei dynnu i mewn i buteindra, yn ddieithriad, ysgogi'r gweithdrefnau cytunedig lleol i sicrhau diogelwch a lles y plentyn...' (LICC, 2005a:86)

Nid oedd ffactorau risg ar gyfer ecsbloetio rhywiol yn cael sylw penodol fel rhan o'r broses asesu yn 19 o'r 21 awdurdod lleol a ymatebodd i'r astudiaeth hon. Roedd diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol o faterion yn ymwneud ag ecsbloetio plant yn rhywiol yn yr holl asiantaethau, a dywedodd 28 ymatebydd eu bod yn wynebu anawsterau o ran canfod plant a oedd yn cael eu hecsbloetio'n rhywiol, er bod dangosyddion ar gael ar gyfer asesu anghenion a nodi risg, sydd wedi eu hen sefydlu. Ymhellach, dim ond wyth awdurdod lleol a nodwyd gan ymatebwyr yn rhai a oedd â phrotocolau a ddatblygwyd dan arweiniad yr Adran Iechyd/Llywodraeth y Cynulliad. At ei gilydd, dywedodd 19 ymatebydd eu bod wedi cael trafferth cael ymateb priodol gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r heddlu pan fynegasant bryderon am blentyn. Byddai hyn yn awgrymu nad yw'r ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer plant sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol yn digwydd mewn ffordd gydlynus, gan rannu gwybodaeth yn gyson.

Ceir corff cynyddol o lenyddiaeth ac ymchwil sy'n nodi arfer gorau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n ymwneud ag ecsbloetio rhywiol. Dengys ymchwil monitro canlyniadau a wnaed gan sawl gwasanaeth Barnardo's yn y DU bod modd ymgymryd ag ymchwil a chasglu gwybodaeth yn effeithiol trwy ddarparu gwasanaethau. Dengys yr ymchwil hefyd bod modd gweithio'n effeithiol gyda'r grŵp hwn o blant a phobl ifanc ac fe geir modelau o wasanaethau ar gyfer plant sydd ar goll a darpariaeth iechyd rhywiol y gellid eu mabwysiadu a'u cymhwyso i wasanaethau yng Nghymru.

Pennir *'plant a phobl ifanc sy'n cael, neu sydd wedi, cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu sydd wedi ymwneud â phuteindra a'r rhai sy'n ymddwyn mewn ffordd rywiol amhriodol'* yn un grŵp o 'blant a phobl ifanc mewn amgylchiadau arbennig' yn y 'Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru' (LICC, 2005b:57) a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn datgan yn glir bwysigrwydd penodol y Safon Diogelu gyffredinol (2005b:21) mewn perthynas â phlant sydd mewn amgylchiadau arbennig oherwydd eu bod yn fwy agored i niwed. Awgryma canfyddiadau'r astudiaeth hon bod gwaith mawr i'w wneud cyn y bydd awdurdodau lleol a phartner asiantaethau yng Nghymru mewn sefyllfa i gwrdd â'r Safon Diogelu mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio'n rhywiol neu sy'n ymwneud ag ecsbloetio rhywiol o'r fath.

Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

- At ei gilydd, pennwyd 184 o achosion gwahanol o blant a phobl ifanc a oedd yn cael eu hecsbloetio'n rhywiol, neu lle ceid pryderon eu bod yn cael eu hecsbloetio'n rhywiol. Awgryma nifer o ffactorau a bennwyd yn yr adroddiad bod y ffigur hwn yn danamcangyfrif o ehangder gwirioneddol y sefyllfa.
- Ceir tystiolaeth o ddiffyg prosesau monitro ffurfiol. Tynnir sylw at y diffyg hwn gan ddiffyg rhannu gwybodaeth ynglŷn ag ehangder y sefyllfa rhwng asiantaethau o fewn un awdurdod lleol.
- Nid yw ffactorau risg ar gyfer ecsbloetio rhywiol yn cael sylw penodol fel rhan o'r broses asesu yn 19 o'r 21 awdurdod lleol a ddarparodd wybodaeth.
- Ceir diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol ynglŷn â materion sy'n ymwneud ag ecsbloetio plant yn rhywiol yn yr holl asiantaethau. Mae hyn yn bryder penodol, gan fod canfod ecsbloetio rhywiol yn dibynnu ar ymwybyddiaeth ymarferwyr unigol sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc.
- Nododd 25 o'r 32 ymatebydd bod angen hyfforddiant.
- Dim ond wyth awdurdod lleol a bennwyd gan ymatebwyr yn rhai a oedd â phrotocolau a ddatblygwyd dan arweiniad yr Adran Iechyd/Llywodraeth Cynulliad Cymru 2000.
- Cyfeiriodd ymarferwyr at anhawster i gael cefnogaeth gan asiantaethau eraill i fynd i'r afael ag anghenion y plant yr effeithiwyd arnynt. At ei gilydd, dywedodd 19 ymatebydd eu bod wedi cael trafferth cael ymateb gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu pan fynegasant bryderon am blentyn.
- Nid oedd gan un o'r awdurdodau lleol a broffiliwyd agwedd gyson a systematig tuag at weithio amlasiantaethol ym maes ecsbloetio plant yn rhywiol.
- Mae proffil yr agenda ecsbloetio plant yn rhywiol ar lefel awdurdod lleol yn aml yn dibynnu ar ewyllys da unigolyn sydd â diddordeb yn y pwnc, yn hytrach na bod yn rhan o agwedd integredig tuag at ddiogelu plant a phobl ifanc.
- Tynnwyd sylw at anghysonderau yn yr ymateb i ecsbloetio rhywiol a'r defnydd o brotocolau ledled Cymru yng nghwrs yr astudiaeth.

Argymhellion

1. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgymryd ag adolygiad o brotocolau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant sy'n cael eu cam-drin trwy buteindra i ganfod a ydynt yn bodoli, a ydynt yn dilyn arweiniad y llywodraeth, a sut y'u gweithredir yn ymarferol.
2. Dylid cynnwys protocolau ar gyfer plant sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol yn y gweithdrefnau amddiffyn plant Cymru-gyfan, a dylid eu hymgorffori yn yr adolygiad sydd ar waith ar hyn o bryd. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod protocolau lleol yn dilyn arweiniad y llywodraeth, eu bod yn cael eu rhannu a'u deall rhwng asiantaethau, a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gadarn.
3. Mae angen ymrwymiad gan asiantaethau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, addysg, iechyd, timoedd troseddau ieuenctid, gwasanaeth ieuenctid ac asiantaethau sector gwirfoddol perthnasol i greu rhwydwaith amddiffynnol er mwyn sicrhau diogelwch plant a phobl ifanc sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol neu sydd mewn perygl o ecsbloetio o'r fath. Mae'n hanfodol enwi unigolyn blaenllaw i gasglu gwybodaeth fonitro, cydlynu ymateb i angen a mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd; dylai'r gwaith hwn fod yn elfen ganolog o rôl benodol ym mhob asiantaeth.
4. Dylid cynnwys plant sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol neu sydd mewn perygl o ecsbloetio o'r fath yn y prosesau monitro ym mhob asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.
5. Dylai canfod achosion o ecsbloetio plant yn rhywiol fod yn ganolog i ddulliau asesu asiantaethau.
6. Dylai ymarferwyr a rheolwyr sy'n gweithio ledled yr holl asiantaethau perthnasol dderbyn hyfforddiant ynglŷn â chanfod ecsbloetio rhywiol, gan gynnwys defnyddio dangosyddion risg, ac arferion gorau o ran darparu ymateb priodol i blant a phobl ifanc. Mae tystiolaeth o arfer da mewn perthynas ag ymatebion priodol eisoes yn bodoli.
7. Dylid hyfforddi ymarferwyr o aml-asiantaethau yn y defnydd o brotocolau ar gyfer plant sy'n cael eu cam-drin trwy buteindra er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso'n gadarn ac yn gyson.
8. Dylid darparu gwasanaethau ecsbloetio plant yn rhywiol arbenigol sy'n cynnwys ymyriad priodol ar gyfer plant sydd ar goll a gwasanaethau iechyd rhywiol. Mae modelau o arfer gorau yn bodoli mewn gwasanaethau ledled y DU a dylid eu mabwysiadu a'u cymhwyso i wasanaethau yng Nghymru.

Llyfryddiaeth

Creegan, C, Scott, S a Smith, R (2005) *The use of secure accommodation and alternative provisions for sexually exploited young people in Scotland*. Barnardo's, Llundain.

Cusick, L (2002) Youth Prostitution: A literature Review, *Child Abuse review* 11: 230-251

Yr Adran Iechyd (2000) *Safeguarding Children Involved in Prostitution: supplementary guidance to Working Together to Safeguard Children*. Yr Adran Iechyd, y Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg a Chyflogaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Harper a Scott (2005) *Meeting the needs of sexually exploited young people in London*, Barnardo's, Llundain.

Hibbert, P (2005) *Barnardo's professional briefing No 2: Appropriate support for sexually exploited young people*. Barnardo's, Llundain.

Palmer, T (2001) *No Son of Mine!* Barnardo's, Llundain.

Pearce, J et al (2002) *It's someone taking a part of you: a study of young women and sexual exploitation*. Biwrô Cenedlaethol y Plant, Llundain.

Scott, S (2001) *Barnardo's Phase project: a case study evaluation*. Prifysgol Lerpwl, Lerpwl.

Swann, S a Balding, V (2001) *Safeguarding Children Involved in Prostitution: guidance review*. Yr Adran Iechyd, Llundain.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005a) *Arweiniad Drafft: Diogelu Plant gyda'n Gilydd; Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant yng Nghymru; Arweiniad i Fyrddau Diogelu Plant Lleol yng Nghymru*. Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005b) *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru*. Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd.

